**PWYLLGOR CYNLLUNIO**

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Dref, Rhuthun ar Ddydd Mercher, 26 Mehefin 2002 am 10.00 am.

**YN BRESENNOL**

Cynghorwyr J. Butterfield, G. A. Clague (cyrhaeddodd 10.45 am), M. Ll. Davies, A. E. Fletcher-Williams, M.A. German, K. N. Hawkins, D. M. Holder, N. J. Hughes, N. Hugh-Jones, E. R. Jones, F. D. Jones, G. Jones, P. M. Jones, R. E. Jones, R. J. R. Jones, J. S. Kerfoot-Davies (cyrhaeddodd 10.55am), E. A. Owens, J.A. Smith, D. A. Thomas, C. H. Williams ac R. Ll. Williams.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Pen Swyddog Cynllunio a Gorfodi, Pen Swyddog Cynllunio (De), Pen Swyddog Cynllunio (Gogledd) a Swyddog Gweinyddol (G. Butler).

**DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH**

Cynghorwyr P. Douglas, S. Drew, I. M. German, S. Thomas, F. Shaw a K. Wells.

**NEWIDIADAU I AELODAETH Y PWYLLGOR**

Hysbysodd y Cadeirydd nad oedd y Cynghorwyr canlynol yn aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio bellach:

Cynghorydd W G Thomas (Llafur)
Cynghorydd D W Davies (Llafur)
Cynghorydd P O Williams (Plaid Cymru)

Mae'r Cynghorwyr canlynol wedi'u henwebu i eistedd fel aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio:

Cynghorydd A Thomas (Annibynnol)
Cynghorydd E C Edwards (Annibynnol)
Cynghorydd S Kerfoot-Davies (Annibynnol)
Mae'r Cynghorydd S Drew yn parhau'n aelod o'r Pwyllgor Cynllunio, yn cynrychioli Plaid Cymru

**157. BRYS**

Yn unol â gofynion Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cyhoeddodd y Cadeirydd ei fod yn bwriadu cynnwys yr eitem ganlynol, a oedd ag angen sylw brys, i'w thrafod:-

(i) Fraith Villa, Y Rhyl - Apêl Gynllunio (Eitem 7 ar yr Agenda)

**158. CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Gwasanaethau Cynllunio (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) yn rhestru'r cynlluniau a gyflwynwyd ac a oedd angen eu penderfynu gan y Pwyllgor.

*PENDERFYNWYD:-*

*(a) cymeradwyo argymhellion y Swyddogion, fel y'u cynhwyswyd o fewn yr adroddiad a gyflwynir yn awr a rhoi caniatâd cynllunio neu'i wrthod yn ôl fel y digwydd, fel y bo'n briodol dan y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio ac Iawndal, 1991, Rheoliadau Hysbysebion Cynllunio Gwlad a Thref, 1994 a/neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth), 1990 i'r datblygiad a arfaethir gan y cynlluniau canlynol yn amodol ar yr amodau a nodir yn yr atodlen a gyflwynir yn awr:-*

(i) Caniatâd

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 03/2002/0121 Cynllunio Llawn | Ar ôl ystyried 2 lythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Bennaeth Priffyrdd a 'Save the Vale', Cae Coch, Sunbank Llangollen. Adeiladu mynedfa newydd i gerbydau ac atgyweiriadau i ran o'r lôn at yr annedd bresennol gan ddefnyddio mynedfa sydd mewn bod at yr A5 yn Pen y Gyrn, Ffordd Caergybi, Llangollen.<br>Yn amodol ar Amod Diwygiedig 3. – Mae'r holl blannu, hadu, tywarchu, ffensio, walio neu driniaeth arall sydd wedi'i gynnwys yn y manylion tirlunio a gymeradwywyd i'w wneud yn y tymhorau plannu a hadu cyntaf ar ôl cwblhau'r datblygiad ac mae unrhyw goed neu blanhigion sydd, o fewn cyfnod o bum mlynedd i'r datblygiad, yn marw, yn cael eu symud oddi yno neu'n cael eu difrodi neu eu heintio'n ddifrifol i'w cyfnewid yn y tymor nesaf am eraill o faint a rhywogaeth debyg.<br>Amodau Newydd 4 & 5. - 4. Mae wyneb y fynedfa i'w phalmantu am bellter o 10m o leiaf y tu ôl i derfyn y briffordd cyn dechrau defnyddio'r datblygiad.<br>RHESWM: Sicrhau na chaiff unrhyw ddefnydd niweidiol ei gario i'r briffordd.<br>5. Mae modd cadarnhaol o atal goferiad dwr wyneb o'r safle i'r briffordd i'w ddarparu i foddhad yr Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gadw cyhyd ag y mae'r datblygiad a gymeradwyir yma yn parhau mewn defnydd.<br>RHESWM: Er mwyn diogelwch y briffordd ac i atal difrod i'r briffordd.<br>NODIADAU I'R YMGEISYDD - Nodiadau Atodol Priffyrdd 1, 3, 4, 5 a 10. |
| 03/2002/212/ Cynllunio Llawn | Codi estyniad a newidiadau i'r annedd bresennol yn Pen y Gyrn, Ffordd Caergybi, Llangollen<br>Yn amodol ar Amod Newydd 2 – Ni chaniateir i unrhyw ddatblygu ddechrau hyd nes y byddir wedi cael cymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol i'r math o garreg a morter sydd i'w ddefnyddio ar waliau allanol yr estyniad.<br>RHESWM: Er mwyn amwynder gweledol.<br>NODYN I'R YMGEISYDD – Fe'ch hysbysir nad yw'r caniatâd cynllunio hwn yn ymwneud â'r ystafell wydr/ ystafelloedd gwydr sydd ag angen caniatâd ar wahân. |
| 03/2002/0480/ Cynllunio Llawn | Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Bennaeth Gwarchod y Cyhoedd a chynllun lleoliad diwygiedig a gylchredwyd.<br>Adeiladu deciau pren i'w defnyddio mewn cysylltiad â bwyty (yn rhannol ôl-weithredol) yn 11 & 13 Bridge Street, Llangollen |
| 14/2002/0130/ Cymeradwyo | Manylion annedd a mynedfa i gerbydau a gyflwynwyd yn Materion a Gadwyd yn Ôl unol â chaniatâd cynllunio amlinellol 16/2001/545/PO ar Dir wrth ochr Pen y Gelli, Bontuchel, Rhuthun |
| 43/2002/0412/ Cynllunio Llawn | Cynyddu uchder y mast twr rhwyllog 11.5m o uchder sydd mewn bod o 5m a gosod 2 antena a chaban cyfarpar ar gyfer gweithredu deuol gan BT Cellnet wrth Safle'r Mast sy'n taro ar Coed Bell, Gronant, Prestatyn.<br>NODYN I'R YMGEISYDD – Fe'ch hysbysir bod hawl tramwy cyhoeddus yn gorwedd yn gyfagos i'r datblygiad. Rhaid peidio ag amharu ar yr hawl tramwy yn ystod y gwaith adeiladu. |

| | |
|---|---|
| 43/2002/0430/Caniatâd Hysbyseb | Parhau i arddangos arwyddion heb eu goleuo sydd wedi'u gosod ar wal (cais ôl-weithredol) yn Rozis Tandoori House, 16 Ffordd Galltmelyd, Prestatyn. |
| 44/2002/0453/ Cynllunio Llawn | Codi estyniad to serth wrth ochr/yng nghefn a phortsh y tu blaen i'r ty annedd yn 2 Bryn Afon, Rhuddlan, Y Rhyl. |
| 45/2001/1240/Cynllunio Llawn | (Cyhoeddodd y Cynghorydd Nancy Fletcher-Williams ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr tra oedd yn cael ei ystyried.)<br>Adeiladu 2 lithren ddr yn dod allan o uwchben lefel y to ac yn mynd i mewn yn ôl i'r adeilad i neuadd y pwll yn yr Heulfan a Theatr y Pafiliwn, East Parade, Y Rhyl.<br>Yn dilyn cynnig i roi caniatâd cynllunio ac wedi i'r nifer gofynnol o Aelodau ofyn am bleidlais gofnodedig, gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i bleidleisio o blaid neu'n erbyn argymhelliad y swyddogion i roi caniatâd cynllunio ar gyfer adeiladu 2 lithren ddr yn dod allan o uwchben lefel y to ac yn mynd yn ôl i mewn i'r adeilad i neuadd y pwll<br>O blaid y cynnig i roi caniatâd cynllunio - Cynghorwyr J. Butterfield, M.Ll. Davies, M.A. German, K.N. Hawkins, D.M. Holder, N.J. Hughes, E.R. Jones, F.D. Jones, G. Jones, J.A. Smith, C.H. Williams, ac R.Ll. Williams (Cyfanswm 12)<br>Yn erbyn y cynnig i roi caniatâd cynllunio - Cynghorwyr N. Hugh-Jones, P.M. Jones, R.E. Jones, R.J.R. Jones, E.A. Owens, D.A.Thomas (Cyfanswm 6)<br>Ni phleidleisiodd y Cynghorwyr G Clague a J S Kerfoot-Davies<br>Felly rhoddir caniatâd yn amodol ar y NODYN I'R YMGEISYDD ychwanegol sy'n dilyn -<br>Mae Grwp Mynediad Sir Ddinbych yn cynghori y byddai'n arfer da gwneud yn siwr bod yr holl gyfleusterau yn cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd. Daw deddfwriaeth newydd i rym yn llawn erbyn mis Hydref 2004. Am ragor o gyngor cysylltwch â'r Grp Mynediad ar 01745 815797. |

Er gwaethaf argymhelliad y swyddogion, bod y cais canlynol i'w ganiatáu am y rhesymau a roddir isod:-

| | |
|---|---|
| 46/2002/0384/ Amlinellol | Cyhoeddodd y Cynghorwyr A Thomas a J Smith ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawsant y Siambr tra oedd yn cael ei ystyried.<br>Ar ôl ystyried 3 llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Chris Ruane AS, Cynghorydd Tref Denise Hodgkinson (Maer Llanelwy) a'r Cynghorydd Andrew Thomas.<br>Datblygu 0.16hectar o dir at ddibenion preswyl ac adeiladu mynedfa newydd i gerbydau (Cais Amlinellol) yng Nghyffordd Tir y Lle Agored Tan y Bryn a Pant Glas, Llanelwy.<br>Penderfynwyd RHOI caniatâd cynllunio ond ar yr amod bod yr ymgeisydd yn gyntaf yn llunio ymrwymiad Adran 106 i sicrhau bod unrhyw werth datblygu yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cyfleusterau hamdden cymunedol. Swyddogion i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Cynllunio gyda phenawdau cytunedig telerau'r ymrwymiad 106. Gwnaed y penderfyniad, a oedd yn GROES i Argymhelliad y Swyddogion, am y rhesymau canlynol:<br>- Mantais Gynllunio<br>- Er lles datblygiad cyfleusterau hamdden cymunedol mewn mannau eraill yn Llanelwy<br>- Mae lleoliad y lle agored presennol yn wael ei gyswllt â thai |

(ii) Gwrthod

| | |
|---|---|
| 44/2002/0451/Adran | Parhau i ddefnyddio uned ddiwydiannol fel meithrinfa cyn ysgol (cais |

| | |
|---|---|
| 73A (Parhau/Cadw) | ôl-weithredol) yn Uned 4 Parc Cyflogaeth Cefndy, Ffordd Cefndy, Y Rhyl<br>Penderfynwyd ymhellach gofyn i'r Adain Adfywio Economaidd gynorthwyo'r ymgeiswyr wrth ddod o hyd i adeiladau eraill.<br>Y Pwyllgor Cynllunio i'w hysbysu os na ddeuir o hyd i adeiladau eraill o fewn 12 mis. |
| 45/2002/0248/<br>Cynllunio Llawn | Parhau i ddefnyddio siop wag (Dosbarth A1) fel lle gwerthu ceir a swyddfeydd cysylltiedig (cais ôl-weithredol) yn 115 Ffordd y Glannau, Y Rhyl. |

(iii) Ymweliadau Safle

| | |
|---|---|
| 19/2002/0272/Amlinellol | Datblygu tir drwy godi ty annedd, adeiladu mynedfa newydd i gerbydau a gosod tanc carthion (cais amlinellol) ar Dir yng nghefn Bryn Dedwydd, Rhyd-y-Meudwy, Rhuthun.<br>Ymweliad Safle i asesu'r effaith ar gymeriad yr ardal a lleoliad y safle mewn perthynas â thai eraill. |
| 21/2002/0463/<br>Cynllunio Llawn | Newidiadau ac estyniad i'r annedd bresennol yn 14 Rectory Lane, Llanferres, Yr Wyddgrug.<br>Ymweliad Safle i asesu a fyddai'r estyniad yn cael effaith ormesol ar dai cyfagos oherwydd y gwahaniaeth yn y lefelau. |

(iv) Gohirio

| | |
|---|---|
| 46/2001/0520/Adran<br>73A (Parhau/Cadw) | Parhau i ddefnyddio rhan o Gae OS Rhif 5000 a 6300 fel melin lifio/gwaith coed, cadw lle stacio dan do, ailorchuddio adeilad presennol y gweithdy, ffurfio mynedfa a lôn newydd i gerbydau, darparu lleoedd parcio a throi a thirlunio cysylltiedig (Yn rhannol ôl-weithredol) yn Rhan o Gae OS Rhif 5000 a 6300 yn Pen y Bryn, Ffordd Glascoed, Llanelwy.<br>Gohirio er mwyn gallu asesu maint y gwaith, tirlunio, effaith ar amwynder a mynediad. |

(v) Tynnwyd yn ôl

| | |
|---|---|
| 15/2002/0333/<br>Cynllunio Llawn | Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth yr ymgeisydd yn tynnu'r cais yn ôl.<br>Codi pwll nofio ac adeiladwaith yn ei amgáu i gynnwys campfa llawr cyntaf, cyswllt i'r ty annedd a newid defnydd tir amaethyddol i ffurfio estyniad i'r cwrtil domestig yn Foel Las, Ffordd Eryrys, Mynydd Du, Yr Wyddgrug. |

**159. ADRODDIAD DRAFFT GWERTH GORAU Y COMISIWN ARCHWILIO**

Hysbysodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio yr Aelodau fod yr Adroddiad Drafft wedi'i dderbyn yn dweud bod y Gwasanaethau Cynllunio i'w cymeradwyo fel "Gwasanaeth 2 seren, da gyda rhagolygon gobeithiol ar gyfer gwella".

Mae'r adroddiad terfynol i'w gyhoeddi ym mis Gorffennaf, gydag unrhyw argymhellion sydd ag angen gweithredu arnynt i'w dwyn ger bron y Pwyllgor Cynllunio.

Mynegodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio ei ddiolchgarwch i'r Aelodau a gyfarfu ag Arolygydd y Comisiwn Archwilio.

Cynigiodd y Cadeirydd longyfarchion y Pwyllgor i'r holl staff ar y gamp yma.

**Gweithdy i Aelodau**

Hysbysodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio yr Aelodau y byddai achlysur gweithdy blynyddol yr Aelodau yn cael ei gynnal yn Henllan ym mis Medi neu fis Hydref ac y byddai'r Aelodau'n cael gwybod maes o law.

**160. MATERION BRYS**

**Fraith Villa, Y Rhyl – Apêl Gynllunio**

(Ystyriwyd yr eitem hon, y rhoed rhybudd ohoni gan y Cadeirydd ar ddechrau'r cyfarfod, fel mater o frys). Hysbysodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio yr Aelodau y derbyniwyd Apêl Gynllunio yn ymwneud â chais 45/2002/1148/PF - Codi 3 byngalo a 22 Fflat yn Fraith Villa, Boughton Avenue, Y Rhyl. Mae'r apelydd wedi gofyn bod hon i'w thrin drwy Sylwadau Ysgrifenedig ond gofynnodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio am farn y Pwyllgor o ystyried lefel y diddordeb cyhoeddus yn y cais cynllunio.

***PENDERFYNWYD*** *Hysbysu'r Arolygiaeth Gynllunio fod Pwyllgor Cynllunio Sir Ddinbych yn dymuno i'r apêl gael ei thrin trwy gyfrwng Gwrandawiad Anffurfiol oherwydd pwysau diddordeb y cyhoedd.*

**161. DYDDIAD YMWELIAD SAFLE**

Cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) yn gofyn am gymeradwyaeth i ymweliadau safle sy'n codi o Eitem Rhif 2 ar yr Agenda gael eu cynnal ar 1af Gorffennaf 2002 ac yn rhoi gwybod am aelodaeth bresennol y Panel Ymweld â Safleoedd

***PENDERFYNWYD*** *cynnal yr ymweliadau safle a gymeradwywyd ar 1af Gorffennaf 2002.*

**162. RHESTR Y CEISIADAU YR YMDRINIWYD Â HWY DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio ei adroddiad ysgrifenedig (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) ynghylch y ceisiadau am Ganiatâd Cynllunio a benderfynwyd ganddo ef dan bwerau dirprwyedig rhwng 4ydd Mai 2002 a'r 7fed Mehefin 2002.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

**163. ADRODDIAD DIWEDDARU AR ORFODI**

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth Gwasanaethau Cynllunio yn manylu ar Faterion Gorfodi sy'n dal i fynd ymlaen ac ar y cynnydd a wnaed.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad a chlustnodi'r eitemau canlynol ar gyfer sylw arbennig gan Swyddogion Gorfodi.*

**Iard yr Orsaf, Dinbych**

Rhoddodd Aelodau Lleol wybod bod y tir hwn wedi bod yn flêr am nifer o flynyddoedd. Rhoddodd y Swyddogion wybod y byddai rhybudd yn cael ei gyflwyno'n fuan a bod trafodaethau wedi'u cynnal gyda gwasanaethau perthnasol eraill gyda golwg ar adfywio'r safle yn fwy cyffredinol.

**Elwy Bank, Llanelwy**

Rhoddodd Swyddogion wybod bod yr eiddo wedi newid dwylo a bod y perchennog newydd yn trafod gyda CADW mewn ymdrech i sicrhau cymorth grant. Roedd y perchennog newydd wedi trafod cyflwyno cais cynllunio hefyd.

**Uned 1, Smithfield Garage, Dinbych**

Holodd Aelodau Lleol a oedd y defnydd wedi peidio yn awr a sicrhawyd hwy fod y swyddogion yn monitro'r safle ac nad oeddynt wedi gweld unrhyw weithgaredd golchi ceir yn ddiweddar. Bydd y monitro yn parhau.

**28 - 34 Stryd y Berwyn, Llangollen**

Bydd Swyddogion yn monitro'r safle a byddant yn gofyn bod cais yn cael ei gyflwyno.

**164. MATERION GORFODI**

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| ENF/2001/010 | Esgeuluso Adeilad Rhestredig Gradd II ac adeilad blêr yn effeithio ar amwynder y gymdogaeth yn y Kings Arms, 18 Stryd y Dyffryn, Dinbych.<br>***PENDERFYNWYD***:-<br>*(i) Cyflwyno Rhybudd dan ddarpariaethau Adran 125 y Ddeddf Cynllunio yn mynnu bod pa bynnag gamau sydd eu hangen yn cael eu cymryd i wella cyflwr y tir/adeilad;*<br>*(ii) Cychwyn achos erlyn neu gamau priodol eraill dan y Deddfau Cynllunio os yw'r sawl neu'r rhai y cyflwynir rhybudd iddynt neu y cymerir camau cyfreithiol yn eu herbyn yn methu â chydymffurfio â'u gofynion.* |
| ENF/2002/025 | Newid defnydd adeiladau adwerthu i arddangos a gwerthu ceir a swyddfa gysylltiedig yn 115 Ffordd y Glannau, Y Rhyl.<br>***PENDERFYNWYD***:-<br>*(i) Cyflwyno Rhybudd Gorfodi i sicrhau y rhoddir terfyn ar y gwerthiannau cerbydau diawdurdod a'r swyddfa gysylltiedig;*<br>*(ii) Cychwyn achos erlyn neu gamau priodol eraill dan y Deddfau Cynllunio yn erbyn y sawl neu'r rhai y cyflwynir unrhyw rybudd gorfodi neu rybudd arall o'r fath iddynt neu y cymerir camau cyfreithiol yn eu herbyn petaent yn methu â chydymffurfio â'u gofynion.* |
| ENF/2002/009 | Storio carafanau/lle blêr ar Dir yn gyfagos i Allt y Graig Cottages, Ffordd Galltmelyd, Dyserth.<br>***PENDERFYNWYD***:-<br>*(i) Cyflwyno Rhybudd Gorfodi i sicrhau y symudir y carafanau diawdurdod oddi ar y safle.*<br>*(ii) Cyflwyno Rhybudd Adran 215 (Tir Aflêr) i sicrhau bod y safle yn cael ei gadw mewn cyflwr taclus.*<br>*(iii) Cychwyn achos erlyn neu gamau priodol eraill dan y Deddfau Cynllunio yn erbyn y sawl neu'r rhai y cyflwynir unrhyw Rybudd Gorfodi, Adran 215 (Tir Aflêr) neu rybudd arall o'r fath iddynt petaent yn methu â chydymffurfio â'u gofynion.* |
| ENF/2002/003 | Gosod drws a thair ffenestr heb ganiatâd cynllunio yn 73 Stryd y Dyffryn, Dinbych.<br>***PENDERFYNWYD***:-<br>*(i) Cyflwyno Rhybudd Gorfodi o fewn 12 mis i'r penderfyniad hwn i sicrhau y ceir gwared â'r drws a'r ffenestri U.P.V.C. diawdurdod a bod ffenestri math fframiau bocs traddodiadol gydag 8 panel dros 8 panel o wydr a drws pren traddodiadol yn cael eu rhoi yn eu lle.*<br>*(ii) Cychwyn achos erlyn neu gamau priodol eraill dan y Deddfau Cynllunio yn erbyn y sawl neu'r rhai y cyflwynir unrhyw rybudd gorfodi neu rybuddion eraill o'r fath iddynt petaent yn methu â chydymffurfio â'u gofynion.* |
| ENF/2002/023 | Lleoli uned gludadwy i'w defnyddio fel swyddfa yn Pentre Kitchens, Pentre, Llanrhaeadr Y.C. Dinbych.<br>***PENDERFYNWYD***:-<br>*(i) Cyflwyno rhybudd gorfodi i sicrhau y ceir gwared â'r uned swyddfa gludadwy;* |

*(ii) Cychwyn achos erlyn neu gamau priodol eraill dan y Deddfau Cynllunio yn erbyn y sawl neu'r rhai y cyflwynir unrhyw rybudd gorfodi neu rybuddion eraill o'r fath iddynt petaent yn methu â chydymffurfio â'u gofynion.*

**165.** **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *dan Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol am eu bod yn debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 13 Rhan 1 Atodlen 12A y Ddeddf.*

**166.** **ENF/184/99/S - HEN YSBYTY GOGLEDD CYMRU, DINBYCH**

Hysbysodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio y Pwyllgor ei fod yn dymuno tynnu'r argymhelliad a oedd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad Rhan 2 a gyflwynwyd yn ôl a bod yr adroddiad er gwybodaeth yn unig ar hyn o bryd. Byddai adroddiad pellach yn cael ei ddwyn ger bron yr Aelodau yn manylu ar agwedd Adeilad Rhestredig y mater gorfodi hwn gydag argymhelliad i'r Aelodau ei ystyried.

Trafododd yr Aelodau faterion yn ymwneud â lladrad honedig asedau a fandaleiddio/esgeuluso'r adeiladau yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

***PENDERFYNWYD*** *bod y swyddogion yn adrodd yn ôl i gyfarfod o'r pwyllgor cynllunio yn y dyfodol.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.15 pm.

***********